

Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Communities, Equality and Local Government Committee
CELG(4)-27-15 Papur 6 / Paper 6



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Cadeirydd: Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Hydref 2015

Annwyl Christine

Ryw'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch gohebiaeth dyddiedig 8 Hydref, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, yn holi am ragor o wybodaeth ynglŷn â'n gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'ch gohebiaeth yn codi nifer o faterion, ac rwyf wedi darparu gwybodaeth yn nhrefn y penawdau sydd yn eich llythyr.

Bwrw Mlaen

Un o'r amodau grant ar gyfer ariannu'r Canolfannau Cymraeg yw bod pob un ohonynt yn darparu adroddiad i Lywodraeth Cymru yn ddim hwyrach na 18 mis ar ôl derbyn y cyllid. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys:

- nodau ac amcanion y prosiect;
- sut bydd y nodau a'r amcanion yn cyfrannu at nodau a meysydd strategol strategaeth *laith fyw: iaith byw* a pholisi *Bwrw Mlaen*;
- tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd (gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid ac ati, lle bo'n berthnasol);
- hunanasesiad o effaith y prosiect a pha mor effeithiol ydyw;
- y gwersi a ddysgwyd wrth ymgymryd â'r prosiect.

Rydym yn disgwyl i'r adroddiadau cyntaf ddod i law ym mis Awst 2016. Ar ôl hynny, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phob canolfan i glustnodi arferion da, meysydd i'w datblygu, ac i ddiweddarau'r cynllun busnes yn unol â hynny.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd mewn cyswllt rheolaidd â'r Canolfannau, ac yn cyfarfod â'u cynrychiolwyr yn rheolaidd. Mae'r Canolfannau a ariennir gan y cynllun hefyd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, a bydd y trefniant hwn yn parhau i'r dyfodol.

Mae'r Canolfannau yn elfen bwysig o'n dull o gyflawni polisi *Bwrw Mlaen* a datblygu'r Gymraeg yn y gymuned. Bydd disgwyl i bob un o'n partneriaid sy'n derbyn cyllid refeniw, fel y Mentrau Iaith, yr Urdd ac eraill gydweithio'n agos â'r Canolfannau, a byddant yn rhoi gwybod inni am unrhyw ddatblygiadau drwy gyfrwng eu hadroddiadau chwarterol.

Yn achos y Canolfannau Cymraeg a'r Mentrau Iaith, y bwriad yw iddynt fod yn rhan annatod o'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu – mae hyn yn golygu bod eu gweithgareddau'n amrywio o ardal i ardal yn unol â phroffil demograffig y siaradwyr Cymraeg a phroffil yr economi leol.

Yn achos addysg, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i gynllunio sut byddant yn darparu ar gyfer y Gymraeg yn y system addysg, gan deilwra'r ddarpariaeth honno'n unol ag anghenion lleol, ac mae gan Weinidogion Cymru rôl bwysig mewn perthynas â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

At hynny, er mwyn gwella'n hymwybyddiaeth o amgylchiadau lleol, fe wnaethom gomisiynu astudiaeth ymchwil ynglŷn â *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned*, a gyhoeddwyd ar 7 Hydref. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi gwaith Llywodraeth Cymru wrth iddi fireinio a datblygu ei dulliau gweithredu i gyrraedd yr amcanion a amlinellir yn *Iaith fyw, iaith byw a Bwrw Mlaen*.

Yr weledigaeth yw i'r Gymraeg fod yn rhan o brofiadau unigolion o'r crud, gyda chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith drwy'r ddarpariaeth Blynnyddoedd Cynnar, y system ysgolion, yn y gymuned ac mewn gweithgareddau hamdden, drwy addysg bellach ac addysg uwch a dysgu oedolion. Ein nod yw sicrhau bod yr weledigaeth hon yn bwydo i mewn i bob agwedd ar ein gwaith ni a gwaith ein partneriaid.

Rydym wedi datblygu ein dulliau o lywio a chydlynu gwaith ein partneriaid. Mae brand Y Llais, er enghraifft, yn creu llais cryf, unedig ac mae'n gyfle i sicrhau bod pobl yn gallu gweld dilyniant yng ngwaith Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid a ariennir ganddi wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hefyd yn dangos ein bod yn rhannu'r un weledigaeth, ac yn cydweithio er mwyn annog cynnydd yn nefnydd yr iaith.

Mae gwefan *Cymraeg - Byw Dysgu Mwynhau* yn borthol sy'n cyfeirio pobl at bob math o wybodaeth am y Gymraeg, ac mae'n cynnwys cyfraniadau gan ein partneriaid ym mhob rhan o Gymru. Law yn llaw â'r wefan rydym wedi creu system CRM i gynnal perthynas â chwsmeriaid, gan alluogi unigolion i gofrestru i dderbyn gwybodaeth sydd wedi'i theilwra am ddiwyddiadau a gwasanaethau Cymraeg.

Safonau'r Gymraeg

O ran pam na fydd y rheoliadau ar gyfer y trydydd cylch yn cael eu gwneud cyn mis Mai 2016 – yn unol â Mesur y Gymraeg rhaid i Weinidogion Cymru rhoi sylw dyladwy i bob un o gasgliadau Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn ymchwiliad safonau. Mae hon yn broses sy'n cymryd amser, gan fod angen ystyried casgliadau'r Comisiynydd ochr yn ochr â thystiolaeth y cyrff eu hunain, yn ogystal â dymuniad polisi y Llywodraeth. Mae'n bwysig ein bod yn paratoi rheoliadau addas.

Byddai'n rhaid paratoi rheoliadau erbyn Chwefror er mwyn cwblhau'r broses o greu'r ddeddfwriaeth cyn etholiad 2016. O ystyried bod dros 60 o gyrff o sectorau gwahanol yn nhrydydd ymchwiliad safonau'r Comisiynydd, nid yw hynny'n caniatáu digon o amser i roi sylw dyladwy i gasgliadau'r Comisiynydd a pharatoi rheoliadau addas.

O droi at y cyrff yn nhrydydd ymchwiliad y Comisiynydd, a'r amserlen ar gyfer gosod safonau ar sefydliadau fel cyflenwyr nwy a thrydan, darparwyr gwasanaethau telathrebu, a darparwyr gwasanaethau rheilffordd – er mwyn i ni allu llunio safonau, mae angen i'r Comisiynydd fod wedi cynnal ymchwiliad i'r cwmnïau dan sylw a darparu adroddiad i Weinidogion Cymru. Mater o broses ac o wneud pethau'n gywir yw hyn. Rwy'n ffyddiog y byddwn yn gosod safonau pellach ar y sectorau hyn wrth i'r broses fynd yn ei blaen, ac rwy'n disgwyl ymlaen at weld hynny'n digwydd.

Ac o safbwynt cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu mewn perthynas â sefydliadau'r sector preifat, rwy'n cydnabod bod Atodlenni 7 ac 8 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i rai cyrff o'r sector preifat ddod o dan y drefn safonau. Ymhlith eraill, mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau sy'n darparu ynni, dŵr, gwasanaethau post, telathrebu, a thrafnidiaeth. Mae'r rhain yn gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau pwysig i'r cyhoedd ac rwy'n disgwyl ymlaen iddynt ddod o dan y drefn safonau i wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg eu cael yn eu bywydau pob dydd.

Nid yw'r sector preifat yn ei gyfanrwydd yn dod o dan y drefn safonau fel mae'r Mesur yn sefyll ar hyn o bryd. Er enghraifft, nid yw archfarchnadoedd a gwasanaethau ariannol yn dod o dan y Mesur ar hyn o bryd.

Cynllunio

Mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol ill dau wedi derbyn y ffaith y bydd angen diweddarau Polisi Cynllunio Cymru a TAN 20 ar ôl i Ddeddf Cynllunio (Cymru) gael Cydsyniad Brenhinol. Ni ddaw'r darpariaethau yn adran 31 o'r Ddeddf i rym tan yn gynnar yn 2016, a bydd gwaith i ddiweddarau fframwaith y polisi cynllunio yn dilyn yn fuan wedi hynny.

Prif fwriad TAN 20 yw helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol, a chyfrifoldeb pob Awdurdod Cynllunio Lleol yw penderfynu arwyddocâd y Gymraeg ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu ar sail y dystiolaeth. Bydd effaith y TAN yn dibynnu felly ar ba gam y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei gyrraedd, ac ar arwyddocâd y Gymraeg yn lleol. Er enghraifft, fe wyddom fod y Gymraeg wedi ei hystyried yn ddiweddar gan Gyngor Caerdydd, sy'n paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd.

Mae disgwyl i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyhoeddi Adroddiad Monitro Blynnyddol ar berfformiad eu Cynllun Datblygu Lleol. Pan fydd Cynllun Datblygu Lleol wedi clustnodi polisiâu ar gyfer cefnogi'r Gymraeg, dylid eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Monitro. Mae'r newidiadau yn adran 31 o'r Ddeddf yn atgyfnerthu'r gofynion blaenorol yn y polisi cynllunio y gall ystyriaethau o ran y Gymraeg fod yn rhan o'r broses benderfynu. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol eisoes fod yn gyfarwydd â'r darpariaethau hyn, a byddwn yn parhau i'w cefnogi drwy'r broses o ddatblygu ac adolygu'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

Addysg

Adolygiad yr Athro Davies

Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ar Gymraeg ail iaith yn y cwricwlwm newydd ar 15 Hydref.

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn cael ei gyflwyno yn y cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys pwyntiau cyfeirio ar gyfer cynnydd a deilliannau cyflawniad clir ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg dros amser.

Bydd y gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd yn cael ei wneud gan ein rhwydwaith o ysgolion arloesi, gyda chymorth arbenigwyr o Gymru ac arbenigwyr rhyngwladol.

Ar 22 Hydref cyhoeddwyd Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes, y cynllun lefel uchel sy'n nodi sut bydd argymhellion Dyfodol Llwyddiannus yn cael eu gweithredu, ac mae'n cynnwys y prif gerrig milltir. Ein huchelgais yw dylunio, datblygu a gwireddu ein cwricwlwm o fewn chwe blynedd fel ei fod ar gael i'w addysgu erbyn Medi 2021.

Dechrau'n Deg

Mae darpariaeth Gymraeg yn rhan annatod o Dechrau'n Deg, ac rydym bob amser wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymateb i ddewis rhieni, ac i gynnig darpariaeth Gymraeg lle bo'i hangen. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod unrhyw dargedau penodol ar gyfer darparu gofal plant Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg. Er hynny, mae canllawiau strategol Dechrau'n Deg yn parhau i bwysleisio bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i fodloni dymuniadau rhieni sy'n dewis darpariaeth cyfrwng Gymraeg a / neu ddwyieithog.

Yn 2014-15, sef y cyfnod diweddaraf y mae gennym ddata ar ei gyfer, roedd 9,393 o blant yn gymwys am ofal plant am y tro cyntaf, a gwnaed ceisiadau am ofal plant cyfrwng Gymraeg ar gyfer 998 o'r rhain mewn lleoliadau Dechrau'n Deg. Atebwyd y galw yn achos 965 o'r ceisiadau hyn, sef 96% o'r ceisiadau.

Mae'r ffigurau'n dangos bod tua 10% o'r plant oedd yn gymwys am ofal plant o dan Dechrau'n Deg wedi derbyn y gofal hwnnw drwy'r Gymraeg.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Nid yw cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 wedi ei benderfynu hyd yn hyn. Bydd canlyniadau'r adolygiad o wariant yn cael eu cyhoeddi ar 25 Tachwedd, a disgwylir y bydd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn hysbys ar 8 Rhagfyr. Ni fydd modd inni gynnig unrhyw sylwadau ar gyllidebau tan hynny.

I gloi, hoffwn i ddatgan fy mod i'n ddiolchgar i chi fel Pwyllgor am eich sylwadau ac yn gwerthfawrogi eich adborth adeiladol.

Yn gywir



CARWYN JONES